BRONIESTIN, ABERDARE, SOUTH WALES.

# CAN CANMOLIAETH

## I GWN HELA WM. MORGAN, YSW.,

TREMAINS, SWYDD FORGANWG,

*Am eu Gorchestion yn yr Helfa a gymmerodd le yn Neheubarth Brycheiniog, Mehefin,* 1869.

GAN CARW COCH. (William Williams)

Chwi wych helwyr glân Brycheiniog,
A Gwlad Forgan anian enwog,
Dewch i wrandaw, 'r glew wyr glana',
Iawn gân hwylus am gŵn hela;
Rhai sy'n hynod ac yn heini,
Ar gŵn ereill yn rhagori
I ddal gwylltfilod, hawdd yw profi,
A phob creadur ellir enwi,
Ni waeth daeargwn mwy nâ dwrgi.

Yn *Nhremains*, os treïir mesur,
Mae'r cŵn goreu 'nawr a glywir;
Sôn am danynt sydd am hela
Trwy dra gwiwlwys diroedd Gwalia,
Pan glywir sŵn y cŵn a'r Cynydd,
Heb wall yn galw oll eu gilydd,
I dynu'r drail ar fryn a dolydd,
Ni waeth pa ran, neu fan o fynydd,
Taer iawn ydynt trwy'r tarenydd.

Ar foreuddydd yn Mehefin
Daeth ein Morgans ddewr a'i fyddin
I'r Berthlwyd, yn swydd Frycheiniog,
Arwr llon, i hela'r Llwynog;
Idd ei gwrdd daeth gwyr o urddas,
Hylaw cain, a helwyr cynhas,
Sef Rees Rhys a Dafydd Thomas,
Powell ddewr a meibion Mathias,
A'r dieilydd Dafydd Williams.

Daeth Dafydd Griffiths mewn mynydyn,
Morgan Jones a Dafydd Llewelyn,
Pawb mewn hwyl er chwyddo'r fyddin,
I gael profi'r garw bryfyn.
Chwythai'n mawrgu Yswain Morgan
Ei gân îr o'i udgorn arian,
Ac yn ei sŵn ei gŵn teg anian
Ddechreuent dyru'n ail i daran,
Nes 'doedd y byd yn diasbedian.

Hwylio i'r fan o dan Hir-fynydd,
Gyda'i hoywgain helgwn hylwydd,
At y nôd ai'n mawrglod Morgan,
I uwcha' dòn ar fin y Daran.
Cyn yngan gair ar g'oedd, na gwaeddu,
Clywn y ffyrnig gŵn yn ffroeni;
Rhoddent ernes lawn ddiwyrni
Fod y pryf ar fin cael profi
Argoel adwyth mawr galedi.

Fal rhyw ergyd dyna'r helgwn
Nerth eu gallu'n swrth gyd-ollwng,
Ac mal mellten yn ymfolltio
Ar ol y gelyn oedd yn cilio;

Gwel'd hwy'n 'mosod dros y maesydd,
E deimla'n ddidwyll pawb yn ddedwydd;
Hwythau'n dylyn bryn a dolydd,
A'i hir gamau dros y cymydd,
Fal yn dirwyn ar adenydd.

Er ymdroi am awr i dreio,
Daeth i'w blaned amser blino,
Gan mor gyson o'ent hwy'n gosod,
A'r fath drefn yn ei drafod,
'Doedd fawr gobaith am ymgadw,—
Ei gloch yn taro a chlywed twrw,
Lleisiau'r hwylus helwyr hoyw,
A iaith y cŵn yn eitha' croew,
Pe rhedai i'r môr mai rhaid yw marw.

Aeth y Llwynog barfog, buan,
Heb un noddfa 'nawr yn unman,
Nac un câr na dâr i dyrio,
Er ei oreu yn cael ei guro;
Yn ei ing nid oedd diangfa
Y cwn yn hwylus yn ei hela,
Am ei wared neb, mi wiria,
Ond pawb yn ddiwyd am ei ddifa,
Nes i'w elfen ddod i'r ddalfa.

Ar ddiwrnod hynod enwog
Lladdai'r llon-gwn bedwar llwynog,
Rhai trwy barthau'r wlad fu'n porthi
Ar y iar, yr wydd, a'r twrci;
Darfu oes y chwithig gathod,
Y ffwlberti a'r gwencïod,
Cwta-lwydwen a'r cwningod;
Dreifo' *Bela* gwnant a'i ddarfod,
Daearfochyn a'r dewr fychod.

Enwau'r cŵn sydd fel y canlyn:—
*Chanter, Lofty, Rouser, Ruin,*
*Drummer, Tapster, Bluet, Braidy,*
*Foreman, Trueman, Ranter, Rally,*
*Ringwood, Famous, Gambler, Comely,*
*Ramser, Rowser, Topper, Lovely,*
*Warrior, Nimrod, Harlock, Crafty,*
*Charmaid, Juno, Gamester, Daisy,*—
Dyna'r helgwn goreu'n Nghymru.

Iechyd, llwydd, am dair oes gyfan,
F'o i'n mawrgu '*Squire* Morgan;
I Williams, Mathias, Rhys, a Phowell,
Rhown *Hwre!* ar frig yr awel;
Caed y Cynydd a'i gŵn enwog
Glod a chân holl wyr Brycheiniog;
Rhin a rhad ein gwlad oludog
Ar y rhai'n bob copa walltog,
A mawl tra'n fyw i'w llyw galluog.

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, HEOL-CAERDYDD, ABERDAR.

XZC5 212076